COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A CHYNLLUNIO CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS FAWRTH, 26AIN CHWEFROR 2019 AM 6.30 P.M.

YN BRESENNOL: Cynghorydd Mrs Glenys Baker (Cadeirydd).
Cynghorwyr B. Barton, D. Bradley, C. Brockley, Mrs M. Jones, C. Matthews, J. Pearson (Warden Coed), M. Tasker, S. Williams (Maer), M. Worth,

SWYDDOGION: Mrs C. Earley, Clerc y Dref a Mrs R. Dudley, Clerc Cynorthwyol

378/18 <u>Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:</u>

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd N. Bastow (Dirprwy Faer),

379/18 <u>Datgan Cysylltiadau:</u>

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu rai sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

380/18 <u>Cofnodion</u>:

Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 5ed Chwefror 2019 i fod yn gywir.

381/18 Materion Yn Codi O'r Cofnodion Blaenorol:

a) **Cofnod 340/18(b) – Ymgynghoriad ar y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl):**

Cyflwynodd y Clerc nodiadau ag argymhellion gan y Cynghorydd Barton mewn ymateb i'r papurau ymgynghori diweddaraf. Adroddodd y Cynghorydd Barton nad oedd y fersiwn cryno yn ddigon manwl ac felly roedd wedi cymryd i ystyriaeth y wybodaeth gefndirol fanwl oedd ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) cyn iddo wneud argymhellion parthed ymateb gan y Cyngor Tref. Mewn perthynas â chwestiwn 5, mynegodd y Cynghorydd Barton ei bryder nad oedd unrhyw gyfeiriad at faterion yn ymwneud a mynediad i bobl gydag anableddau yn y CDLl ac roedd o'r farn y dylai'r Pwyllgor tynnu sylw at hyn yn y cam cynnar hwn o baratoi'r CDLl diwygiedig.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc cyflwyno hyn fel sylw cyffredinol mewn ymateb i'r ymgynghoriad diweddar

Papur 2 – Dewisiadau tyfiant:
Cyflwynodd y Cynghorydd Barton cynnig bod y Cyngor Tref yn cefnogi dewis hybrid rhwng dewisiadau 5/6 (rhywle rhwng 7,150 a 17,300 o dai newydd). Roedd yr Aelodau o'r farn, fodd bynnag, bod angen i'r tyfiant yng nghyflogaeth, er mor ddymunol yw hyn (yn unol â'n Cynllun Corfforaethol), bod yn realistig, yn arbennig o gofio'r nifer o dai newydd bydd angen i gefnogi hyn. Y farn felly oedd bod dewis 4 (yn seiliedig ar

lefelau tyfiant o 1,850 o swyddi a 5,250 o gartrefi erbyn 2033) yn fwy cyraeddadwy.

Cynigiwyd ac eiliwyd bod y Cyngor yn cefnogi Dewis Tyfiant 4.

Cafwyd cynnig arall gan y Cynghorydd Barton am Ddewis 5, ond ni chafodd hwn ei eilio.

Penderfynwyd argymell bod y Cyngor yn cefnogi Dewis Tyfiant 4.

Yna aeth yr Aelodau ymlaen i ystyried y chwe phrif ddewis i ddynodi'r mannau lle dylai / gallai tyfiant ddigwydd. Ni ddatganwyd unrhyw farn benodol ar ba un o'r rhain byddai'n fwyaf / lleiaf ffafriol. Cafodd Bae Colwyn ei ddynodi i fod yn ardal lle mae'r potensial am dyfiant ym mhob un o'r chwech dewis (gyda dewis 6 yn canolbwyntio ar dyfiant mewn ardal newydd a thref newydd).

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Barton am ei ymdrechion.

b) Cofnod 343/18 - Dydd Gŵyl Dewi:

Cyflwynodd y Clerc Cynorthwyol y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y gystadleuaeth. Fe nodwyd bod tair Ysgol Babanod wedi cynnig am y gystadleuaeth posteri. Ar gais y Cynghorydd G. Campbell, fe estynnwyd y gystadleuaeth i ddylunio baner Dydd Gŵyl Dewi i Ysgolion Iau,. Bydd y gwobrwyon am gystadleuaeth y poster a'r faner yn cael ei dalu allan o'i Lwfans Ward hi. Y dyddiad cau am y gystadleuaeth yw dydd Llun 4ydd Mawrth 2019.

Fe nodwyd bod posteri Dydd Gŵyl Dewi wedi cael eu dosbarthu i'r siopau (fel rhan o brosiect a dalwyd amdano gan Gynghorwyr P. Richards, M. Worth a G. Baker) a chafodd y Cynghorwyr adborth da gan y masnachwyr.

c) Cofnod 344/18 – Mynediad i Bobl gydag Anableddau / Cyrbau Isel:

Fe ofynnwyd i'r Aelodau archwilio mynediad i bobl gydag anableddau / cyrbau isel yn eu Wardiau. Holodd y Clerc os oedd unrhyw adroddiad ar faterion newydd neu ddiweddariadau ar eitemau a ddynodwyd eisoes ar gael i'w cyflwyno i sylw'r Pwyllgor. Mynegwyd pryder bod rhai siopwyr yn gwrthod mynediad i'w siopau i bobl ar sgwteri i'r anabl ac / neu yn gwrthod gosod rampiau. Dywedodd un aelod ei fod o'r farn bod hyn yn ofyniad cyfreithiol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb fel 'addasiad rhesymol'.

ch) Cofnod 318/18(d) – Diweddariad am y Wefan:

Rhoddodd y Cynghorydd Brockley diweddariad i'r Pwyllgor am y gwaith a wnaed ganddo ar y wefan i'w wneud yn fwy ymatebol (cyfeillgar efo ffonau symudol / tabledi). Dangosodd y wefan prawf i'r aelodau ond cyfeiriodd at y problemau o ail-greu rhai o'r tudalennau a bersonolwyd. Fe nodwyd yr angen i rywfaint o wybodaeth bod yn fyw, am resymau cyfreithiol; h.y. manylion cyswllt Cynghorwyr ac agenda / cofnodion cyfarfodydd. Mynegwyd bod hyn yn llawer o waith / pwysedd i un person

gwneud yn wirfoddol ac am fod arian ar gael yn y gyllideb, y dewis tecach byddai cyflogi datblygwr gwefan.

Felly fe gynigiwyd ac eiliwyd i ddiolch i'r Cynghorydd Brockley am ei waith a bod y Cyngor rŵan yn rhoi gorchymyn i ddatblygwr proffesiynol gwefannau i gwblhau'r gwaith. Cafwyd amcan bris eisoes o £800 (am ddau ddiwrnod o waith).

Penderfynwyd rhoi awdurdod dirprwyol i'r Clerc cysylltu â datblygwyr gwefannau i gael amcan bris i ddiweddaru'r gwefan i fod yn llwyfan ymatebol ac i fynd ymlaen a'r gwaith os yw o fewn y gyllideb.

382/18 <u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):</u>

Penderfynwyd derbyn a nodi'r ohebiaeth ganlynol oddi wrth GBSC:

Rheoliadau Traffig Dros Dro

Rhybudd o gais am reoliadau traffig dros dro yn:
The Close, Bae Colwyn – Ffordd Abergele hyd at yr is-orsaf – 05/04 – 15/04

383/18 <u>Adolygiad Ledled Cymru 2019 o Feddygon Teulu yn Gweithio y tu allan i Oriau:</u>

Fe nodwyd copi o'r holiadur gan yr Aelodau.

384/18 <u>Ymchwiliad ar Randiroedd:</u>

Nodwyd y rhybudd am yr ymchwiliad gan yr Aelodau. Cyfeiriodd y Cynghorydd Barton ar y prinder amser i ymateb.

Penderfynwyd cysylltu â Llywodraeth Cymru i ofyn am o leiaf 6 wythnos ar gyfer ymateb / ymgynghori yn y dyfodol.

385/18 <u>Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych:</u>

Nodwyd y Daflen Newyddion gan yr Aelodau.

386/18 <u>Rhwydwaith Tai dan Arweiniad Cydweithredol a Chymunedol (CCLH):</u>

Cyflwynwyd manylion am ddigwyddiadau rhwydweithio. Y man agosaf oedd ym Mlaenau Ffestiniog. Gofynnwyd i'r Aelodau cysylltu â'r Clerc os oeddynt yn dymuno mynd.

387/18 <u>Arwyddion Allanol Neuadd y Dref:</u>

(a) Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau am broblemau a gafwyd yn ddiweddar gan y Staff / Maer efo parcio yn y mannau parcio ger Neuadd y Dref a gofynnwyd i'r Aelodau rhoi awdurdod i osod arwyddion i ddatrys y broblem. Dywedodd y Cynghorydd Worth wrth y Pwyllgor bod CBS Conwy yn ystyried creu llwybr troed o Ffordd Douglas i Ffordd Rhiw gan alluogi maes parcio Ffordd Douglas i gael ei ddefnyddio gan y cyhoedd.

Penderfynwyd rhoi awdurdod dirprwyol i'r Clerc cael arwyddion i'r staff a'r Maer cael parcio yn y maes parcio.

(b) Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau bod arwydd Neuadd y Dref ger y brif fynedfa yn anodd iawn i'w ddarllen gan bobl oedd yn mynd heibio. Gofynnodd am arwydd cliriach ac arwydd newydd am fynediad i rai gydag anableddau yn amodol ar dderbyn caniatâd Adeilad Rhestredig.

Penderfynwyd rhoi awdurdod dirprwyol i'r Clerc ceisio a chael unrhyw ganiatâd sy'n angenrheidiol ac i osod arwyddion newydd ger y brif fynedfa i Neuadd y Dref.

388/18 <u>Gohebiaeth Arall:</u>

Fe nodwyd Cofnodion cyfarfod Cymdeithas Trigolion Hen Golwyn a gynhaliwyd ar 13.2.2019.

389/18 <u>Cynllunio</u>:

a Cyflwynodd y Clerc y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd oddi wrth GBS Conwy a welir yn Atodlen A sydd gyda hwn i gael eu hystyried.

Penderfynwyd cyflwyno sylwadau ar y ceisiadau hyn fel y maent yn ymddangos yn yr Atodlen honno.

b Penderfyniadau Cynllunio

Penderfynwyd derbyn a nodi'r Penderfyniadau Cynllunio a wnaed gan GBSC am y cyfnod 28/1/2019 hyd at 24/2/2019.

c Cymorth Cynllunio Cymru:

Dosbarthwyd manylion am y digwyddiad rhwydweithio sydd i'w gynnal ym Mae Colwyn ar 14eg Mawrth 2019 i'r aelodau. Gofynnodd y Cynghorwyr G. Baker, B. Barton, C. Matthews a Jeff Pearson am ganiatâd i gael mynd ac i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

ch) Ymweliad a Safle:

Rhoddwyd adroddiadau ar lafar gan y Cynghorwyr M. Jones ag S. Williams am yr ymweliad a safleoedd. Mynychwyd yr ymweliad a'r Sw gan y Cynghorydd S. Williams a dywedodd bod y Pwyllgor wedi mynd yn groes i argymhelliad y Swyddog Cynllunio i wrthod y cais a chefnogwyd y ffald newydd. Mynychwyd yr ymweliad a safle'r Garais yn Ffordd Sefton gan y Cynghorydd M. Jones, sef cais am brosiect tai cymdeithasol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Jones a'r Cynghorydd S. Williams am eu hadroddiadau.

d) **Panel Cynghori ar Gadwraeth:**

Cyfeiriodd y Cynghorydd M. Worth at y cyfarfod a fynychwyd ganddo ac a gafodd yn arbennig o addysgiadol. Eglurodd bod y Panel yn trafod agweddau cadwriaethol unrhyw gais yn unig. Maent yn edrych ar yr

effaith cadarnhaol, niwtral neu negyddol ar yr ardal gadwraeth. Fe nodwyd bod y Panel yn cyfarfod yn fisol pan fo angen.

390/18 <u>Trwyddedau:</u>

(a) Ni chyflwynwyd unrhyw gais am drwydded.

(b) **Rhybudd o Adolygiad o'r Datganiad o Egwyddorion Gamblo:**

Cyflwynodd y Clerc yr adolygiad a dywedodd wrth y Pwyllgor iddi ofyn am estyniad amser i ymateb fel gellir anfon ymateb yn dilyn y cyfarfod nesaf ar 19eg Mawrth.

Gofynnwyd i'r Aelodau cyflwyno eu sylwadau yn y cyfarfod hwnnw.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.45 pm

…… Cadeirydd

MINUTES OF A MEETING OF THE GENERAL PURPOSE AND PLANNING COMMITTEE OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD AT 6:30PM ON TUESDAY 26TH FEBRUARY 2019, IN THE COMMITTEE ROOM, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY

PRESENT: Cllr G Baker, Chair.
Cllrs: B Barton; D Bradley; C Brockley; M Jones; C Matthews; J Pearson; M Tasker; S Williams (Mayor); M Worth.

OFFICERS: Mrs T Earley, Town Clerk and Mrs R Dudley, Assistant Clerk.

226/18 Welcome and Apologies for Absence:

Apologies for absence were received from Cllr N Bastow (Dep Mayor).

227/18 Declarations of Interest:

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. None were declared.

228/18 Minutes:

Resolved to approve and sign, as a correct record, the minutes of the last meeting, held on 5th February 2019.

229/18 Matters Arising from Previous Minutes:

a) **Min.340/18 (b) – LDP Consultation**:

The Clerk tabled notes and recommendations from Cllr Barton in response to the recent consultation papers. Cllr Barton reported that the summary version was not detailed enough and he had therefore taken into account the detailed background information available via the Conwy CBC website, before making recommendations with regards to the response from the Town Council. With regards to question 5, Cllr Barton expressed concern at the lack of any mention about disabled issues in the LDP and he felt the committee should highlight this at this early stage in the production of the revised LDP.

Resolved to request that the Clerk submits this as a general comment, in response to the recent consultation.

Paper 2 – Growth options:
Cllr Barton tabled a proposal that the Town Council support a hybrid option between options 5/6 (somewhere between 7,150 and 17,300 new homes), but Members felt that employment growth, though desirable (in accordance with our Corporate Plan), also needed to be realistic, especially given the number of new homes it could require to support it. It was therefore felt that option 4 (based on growth levels of 1,850 jobs and 5,250 homes by 2033) was more achievable.

It was proposed and seconded that the Council supports Growth Option 4. Cllr Barton made an alternative proposition for Option 5, which was not seconded.

Resolved to recommend that the Council supports Growth Option 4.

Members went on to consider the six main options for identifying the places where growth should/could take place. There was no specific view expressed on which of these would be most/least preferable and Colwyn Bay is identified as a potential area for growth in all but one of the six options (with option 6 being to focus growth in a new area and build a new town).

The Chair thanked Cllr Barton for his efforts.

b) **Min. 343/18 – St David's Day :**

The Assistant Clerk updated the committee on the competition. It was noted that three infant schools have entered the poster competition. The competition had also been extended to the junior schools at Cllr G Campbell's request, to design a St David's Day flag. Prizes for the both the poster and flag competition would be paid from her ward allowance. The closing date for the competitions is Monday 4th March 2019.

It was noted that St David's Day posters had been distributed to the shops (as part of a project funded by Cllrs P Richards, M Worth and G Baker) and Councillors had received good feedback from traders.

c) Min. 344/18– Disabled Access/Dropped Kerbs:

Councillors had been asked to check disabled access/dropped kerbs in their wards and the Clerk requested that any reports of new issues or updates on items previously identified, should be brought to the committee's attention. Concern was expressed that some shopkeepers were refusing entry to mobility scooters and/or refusing to get ramps. One member said he thought this was a legal requirement under the Equality Act, as a 'reasonable adaptation'.

d) **Min 318/18(d) – Update on Website:**

Cllr Brockley updated the committee on the work he had done on the website to make the website more responsive (mobile/tablet friendly). He showed the members the test site, but also pointed out problems he was having in re-building some of the bespoke pages. It was noted that, for legal reasons, certain information has to be kept live; i.e. councillor contact details and agendas/minutes of meetings. Concern was expressed that it was a lot of work/pressure for one person to undertake on a voluntary basis and that as money had been set aside in the budget, the fairer option would be to employ a website developer.

It was therefore proposed and seconded that Cllr Brockley be thanked for

his work, but that the Council now instructs a professional website developer to complete the work. A quote had previously been obtained for £800 (for two days work).

Resolved to delegate authority to the Clerk to contact the website developer(s) to obtain an updated quote to update the website to a responsive platform and proceed with the work if it is within budget.

230/18 Conwy CBC:

Resolved to receive and note the following correspondence from CCBC:

Temporary Traffic Regulations:
Notice of request for temporary traffic regulations at:
The Close, Colwyn Bay - Abergele Road to the Substation – 05/04 – 15/04.

231/18 All Wales Out of Hours GP Survey 2019:

A copy of the questionnaire was noted by members.

232/18 Inquiry into Allotments:

Notice of the inquiry was noted by members. Cllr Barton commented on the lack of time for responses.

Resolved to contact Welsh Government to request a minimum of 6 weeks for future responses/consultation.

233/18 Conwy & Denbighshire PSB:

Members noted the Newsletter.

234/18 Co-operative and Community Led Housing (CCLH) Network:

Details of networking events were submitted. The nearest event was in Blaenau Festiniog. Members were asked to contact the Clerk if they wished to attend.

235/18 Town Hall External Signage:

(a)The Clerk informed the members about recent problems with Staff/Mayor unable to park in the Town Council spaces and requested that the members authorise signs to alleviate the situation. Cllr Worth informed the committee that a walk through from Douglas Road to Rhiw Road was being considered by Conwy CBC which would enable Douglas Road carpark to be used for members of the public.

Resolved to delegate the Clerk to obtain signage for staff and Mayor parking in the car park.

(b) The Clerk informed members that the Town Hall sign at the main entrance was very difficult for passers-by to read and requested that clearer signage and a disabled entrance sign replace the current signage subject to Listed Building permission being approved.

Resolved to delegate the Clerk to obtain any necessary permission and to obtain new signage at the front entrance of the Town Hall.

yn

236/18 <u>Other Correspondence</u>:

The Minutes of the OCRA meeting held on 13.2.2019 were noted.

237/18 <u>Planning</u>:

a) The Clerk submitted, for consideration, the planning applications received from CCBC, as detailed on Schedule 'A' attached.

Resolved to submit observations on these applications, as detailed in that Schedule.

b) **Planning Decisions*:***

Resolved to receive a copy of the Planning Decisions issued by CCBC for the period 28/01/19 – 24/02/2019.

c) **Planning Aid Wales:**

Details of a networking event to be held in Colwyn Bay on 14th March 2019 were circulated to the members. Cllrs G Baker, B Barton, C Matthews and Jeff Pearson requested to attend and will report back to the Committee.

d) **Planning Site Visit**:

Cllr S Williams and Cllr M Jones had both attended site visits and submitted verbal reports. Cllr S Williams had attended the Zoo visit and reported that the officers went against the planning officer's recommendation to refuse the application and supported the new enclosure. Cllr M Jones had attended Sefton Road Garages visit which was a social housing project.

The Chair thanked Cllr Jones and Cllr Williams for their reports.

e) Conservation Advisory Panel:

Cllr M Worth reported on the meeting which he had attended and had found really informative. He explained that the panel is only interested in the conservation aspect of an application. They look at an application to access if it has a positive, neutral or a negative impact on the conservation area. It was noted that the Panel meet on a monthly basis, if required.

390/18 <u>Licensing</u>:

(a) No licensing applications had been submitted.

(b) **Notice of Review of the Statement of Gambling Principles**:
The Clerk submitted the review and informed the committee that an extension had been requested, so that a response could be sent after the next meeting on 19th March.

Members were requested to submit comments at that meeting.

The meeting closed at 7.45 p.m.

……. Chairman